Gwobrau Tiwtoriaid

Ysbrydoli!™

Inspire!™

Tutor Awards 2026

# Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid Dogfen canllawiau

Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: 16 Ionawr 2026

## Tu ôl i oedolion sy'n ddysgwyr llwyddiannus mae tiwtoriaid a mentoriaid sy'n ysbrydoli.













D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Am y Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid:

Mae Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid blynyddol yn dathlu gwaith tiwtoriaid a mentoriaid wrth gefnogi dysgu gydol oes ledled Cymru.

Maent yn cydnabod ymdrech ac ymroddiad gwych tiwtoriaid a mentoriaid i helpu oedolion sy'n ddysgwyr i gyflawni eu huchelgais, oherwydd fod mentoriaid a thiwtoriaid yn ysbrydoli tu ôl i ddysgwyr llwyddiannus.

Gwahoddwn enwebiadau ar ran unigolion eithriadol y mae eu hymroddiad, gwybodaeth a sgiliau addysgu wedi rhoi'r hyder ac egni i oedolion gymryd rhan mewn dysgu a thrawsnewid eu bywydau.

**Cynhelir y cyflwyniad gwobrwyo ar 17 Mawrth 2026 yn Senedd Cymru**.

Mae Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid yn bartneriaeth sy'n cynnwys y Sefydliad Dysgu a Gwaith, Llywodraeth Cymru, Prifysgolion Cymru, NTFW, Colegau Cymru a Phartneriaeth Addysg Oedolion Cymru.

# Beth sy'n gwneud enwebiad da:

Rydym yn edrych am **diwtoriaid a mentoriaid** eithriadol yn eu maes, a all arddangos eu heffaith drawsnewidiol a pharhaus ar fywydau pobl eraill, i fynd yr ail filltir yn eu swydd i gefnogi oedolion ar eu taith addysgol, llwybrau gyrfa a llesiant cyffredinol.

Dylai enwebiadau arddangos llwyddiant yn **o leiaf** ddau o'r meysydd dilynol:

- Datblygu'r cwricwlwm, creu adnoddau a deunyddiau newydd.
- Goresgyn amgylchiadau personol a/neu weithio mewn amgylchiadau heriol.
- Cyfrannu at ehangu mynediad ac adeiladu llwybrau i gyfleoedd dysgu.
- Ysbrydoli dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau neu gyfleoedd eraill i ddysgu neu bontio i gyflogaeth.
- Creu partneriaethau neu lwybrau newydd i ddysgu.

- Datblygu ffyrdd blaengar o gefnogi, addysgu, chwalu rhwystrau neu fentora dysgwyr.

**Tystiolaeth o effaith:**

Dylai eich datganiadau arddangos sut y cafodd y tiwtor/fentor effaith ar fywydau eu myfyrwyr.

Rydym yn annog enwebiadau gan ddysgwyr ac yn croesawu datganiadau cefnogaeth fel rhan o’r cais. Dylid nodi fod yn rhaid i unrhyw enwebiad gan ddysgwr ar gyfer Gwobr Tiwtoriaid gael ei gymeradwyo gan uwch reolwr neu ganolwr proffesiynol sy’n adnabod y sawl a enwebir.

**Gallai’ch ffocws fod ar:**

- Cynnydd, cyrhaeddiad a chyflawniad.
- Tystiolaeth o’r effaith ar iechyd a llesiant dysgwyr.
- Disgrifio sut mae dysgwyr wedi defnyddio’r sgiliau y gwnaethant eu datblygu i gyfrannu at fywyd eu teulu/cymuned / cymdeithas ddinesig / y gweithle neu drawsnewid eu bywydau eu hun.
- Geirda ychwanegol gan fyfyrwyr, dysgwyr a chydweithwyr.
- Caiff gwybodaeth / lluniau /llythyrau i gefnogi am y tiwtor hefyd eu croesawu. Anfonwch nhw atom drwy e-bost os gwelwch yn dda.

# Rydym yn edrych am diwtoriaid a mentoriaid ar draws y sector trydyddol yng Nghymru:

- Addysg Bellach
- Addysg Uwch
- Lleoliad Gweithle
- Addysg Gymunedol
- Cymraeg i Oedolion
- Ysgol neu leoliad arall

Darllenwch / edrychwch ar straeon cyn enillwyr gwerau tiwtoriaid.

# Canllawiau ar gynigion:

- Mae cynigion yn rhad ac am ddim ar gyfer tiwtoriaid a mentoriaid sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

- Gallwch enwebu tiwtor neu fentor os ydych yn ddysgwr, darparydd neu gyflogwr, cydweithiwr, tiwtor arall, dysgwr neu aelod o'r gymuned.

- Gellir ail-enwebu rhywun os ydynt wedi sicrhau llwyddiant pellach ers eu henwebiad blaenorol.

- Os ydych yn ddysgwr neu aelod o'r gymuned, mae'n rhaid i chi gael datganiad cefnogaeth ar gyfer y sawl a enwebwch gan rywun sy'n eu hadnabod yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol.

- Mae'n rhaid i bawb a enwebir wybod eu bod yn cael eu henwebu a dylent fod yn barod i rannu eu straeon gyda'r cyfryngau.

- Bydd pawb a enwebir yn derbyn tystysgrif cyflawni. Anfonir hyn at y person a ddynodir ar y ffurflen. Gofynnir i chi sicrhau y caiff

enw'r sawl a enwebir ei sillafu'n gywir gan y bydd yr enw yma yn ymddangos ar y dystysgrif.

- Caiff eich cais ei farnu ar yr wybodaeth a roddwch yn y ffurflen enwebu, felly gofynnir i chi sicrhau eich bod yn trin y meysydd a amlygir yn y canllawiau.

# Dyddiad cau cynigion:

**Dydd Gwener 16 Ionawr 2026**

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'ch ffurflen enwebu, cysylltwch os gwelwch yn dda â: inspire@learningandwork.org.uk

# Sut mae'r broses ddethol yn gweithio?

- Bydd panel annibynnol o feirniaid yn cynorthwyo gyda dewis yr enillwyr gwobrau.

- Caiff yr holl enillwyr gwobrau eu hysbysu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn yr wythnos yn cychwyn 20 Chwefror 2026. Bydd Dysgu a Gwaith yn anfon e-bost atoch os oes unrhyw newidiadau i amserlen y gwobrau.

# Sut i gyflwyno eich enwebiad

Ar ôl ei llenwi, anfonwch eich ffurflen enwebu a gwybodaeth gefnogi at inspire@learningandwork.org.uk.

---

**Mae Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid yn bartneriaeth sy'n cynnwys y Sefydliad Dysgu a Gwaith, Prifysgolion Cymru, NFW, Colegau Cymru a Phartneriaeth Addysg Oedolion Cymru.**